AMGUEDDFA CYMRU

# Stori Weledol

## Taith i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd









# Stori Weledol


Canllaw Gweledol yw hwn ar gyfer grwpiau addysg sydd am ymweld.

Mae'n llawn gwybodaeth ddefnyddiol i bawb, gan gynnwys pobl ag anghenion arbennig.




# Yr Amgueddfa

Gallwch chi grwydro'r orielau ar-lein cyn ymweld.











# Symbolau a ddefnyddir yn y canllaw hwn



Dyma'r symbol sy'n dangos lle llawn arogl cryf.



Dyma'r symbol sy'n dangos lle swnllyd.




Dyma'r symbol sy'n dangos fod y golau'n newid.



Dyma'r symbol sy'n dangos ble allwch chi gyffwrdd pethau.

# Map

Gallwch lawrlwytho'r map yma.



# Os ydych chi'n cyrraedd mewn bws

Gall y bws barcio o flaen yr Amgueddfa.

Bydd amserlen gan arweinydd eich grŵp. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod ble i fynd, cyn dechrau.



# Os ydych chi'n cyrraedd mewn bws mini

Gall bws mini barcio yn y maes parcio yng nghefn yr Amgueddfa.






# Os ydych chi'n cyrraedd mewn bws mini

Byddwch chi wedyn yn cerdded o'r maes parcio, wrth ochr yr Amgueddfa, i gyrraedd y drws blaen.






# Cyrraedd yr Amgueddfa

Dyma flaen yr Amgueddfa.

Mae llawer o risiau yn arwain at y drws blaen.

Gallwch chi ddefnyddio ramp hefyd.




# Cyrraedd yr Amgueddfa

Dyma flaen yr Amgueddfa.

Mae'r drysau awtomatig yn gallu agor yn sydyn iawn.



# Pwy fyddwch chi'n eu cyfarfod?

Cynorthwy-wyr Amgueddfa yw rhan fwyaf o'r staff fyddwch chi'n eu gweld.

Fel arfer, maen nhw'n gwisgo dillad du
Mae'r Cynorthwy-wyr yn gweithio wrth y Dderbynfa yn y Brif Neuadd.

Bydd Cynorthwy-wyr gwahanol yma bob dydd.

Byddwch chi hefyd yn gweld staff y siop, y bwyty a'r siop goffi.



# Y Brif Neuadd

Yn yr Amgueddfa, byddwch chi'n camu i neuadd fawr.

Mae'r nenfwd yn uchel iawn.

Mae llawer o eco yn y Brif Neuadd.

Mae'r llawr yn galed, ac yn gallu bod yn llithrig.

Mae rhai cerfluniau mawr yn y Brif Neuadd. Peidiwch cyffwrdd neu ddringo ar y cerfluniau.



# Y Brif Neuadd


Mae Caffi yn y Brif Neuadd.

Mae llawer o fyrddau a chadeiriau wrth y Caffi.

Mae'n gallu bod yn llawn sŵn pobl yn siarad, neu gadeiriau'n crafu'r llawr.

Weithiau bydd arogl cryf coffi neu fwyd.

Gall y gofod hwn fod yn brysur iawn.



# Y Brif Neuadd

Mae sgerbwd mamoth fawr ar y chwith o'r fynedfa




# Y Ddesg Ysgolion

Rhaid i ysgolion a grwpiau addysgol eraill gofrestru wrth y Ddesg Ysgolion.

Gofynnwch unrhyw gwestiynau iddyn nhw pan fyddwch chi'n cyrraedd.

Mae'r ddesg i'r chwith o'r fynedfa, ger yr ysgerbwd mamoth.




# Siop

Mae Siop yn y Brif Neuadd hefyd.

Gallwch chi brynu anrhegion yn y Siop.

Weithiau, bydd y Siop yn brysur ac yn llawn.



# Loceri ar gyfer grwpiau

Gallwch chi gadw cotiau a bagiau ar gyfer grwpiau, yn y cypyrddau hyn.

Mae'r cypyrddau i lawr grisiau tro byr.

Mae lifft i lawr at y cypyrddau hefyd. Bydd staff yr Amgueddfa yno i helpu.

Gall y lle fod yn brysur iawn.





# Loceri Personol

Gallwch chi gadw cotiau a bagiau yn y cypyrddau hyn.

Mae angen darn arian i'w cloi a byddwch yn cael hwn yn ôl ar ôl ei ddefnyddio.

Mae'r rhain ger y toiledau ar Lefel 1.

Gofynnwch i staff yr Amgueddfa os oes angen unrhyw help arnoch.



# Lifftiau

Mae gwahanol lifftiau yn yr Amgueddfa. Rhai i'r orielau ar y llawr cyntaf. Rhai i'r toiledau ar y llawr isaf.

**Lefel 1:** Toiledau, Man Cyfarfod Clore
**Lefel 2:** Y Brif Neuadd, y llawr gwaelod
**Lefel 3:** Upper Natural History
**Lefel 4:** Orielau Celf
**Lefel 5:** Orielau Celf








# Lle i fwyta cinio

Os ydych chi'n dod â bocs bwyd gyda chi, gallwch chi a'r dosbarth fwyta ym Man Cyfarfod Clore.

Y Stafell Frechdanau fydd rhai pobl yn ei galw hi.

Gallwch chi fwyta eich brechdanau yn y Brif Neuadd hefyd.

Dydych chi ddim yn cael bwyta nac yfed yn yr orielau.



# Toiledau

Y toiledau ar y Llawr Isaf yw'r llun ar y top.

Y 'Lle Newid' ar y Llawr Isaf yw'r llun isaf ar y chwith. Mae hoist yn y toiled hwn.

Y Toiled yn Oriel Celf Gyfoes 21 yw'r llun isaf ar y dde.









# Pethau allwch chi eu cyffwrdd




Dim ond edrych ar rai o'r pethau yn yr Amgueddfa allwch chi.

Mae rhai pethau allwch chi eu cyffwrdd. Gofynnwch i aelod staff cyn cyffwrdd unrhyw beth.

# Lloriau gwahanol

Byddwch yn ofalus wrth gamu.
Gall lefel y llawr newid a'r arwyneb hefyd, yn enwedig yn orielau esblygiad Cymru.

Weithiau bydd golau yn adlewyrchu o'r llawr a'r ystafelloedd yn teimlo'n llachar.



# Sain a fideo

Mae sawl sgrin yn yr Amgueddfa yn dangos fideos byr.

Mae rhai yn edrych fel eich teledu adref, a rhai yn fawr iawn ar y waliau.

Mae rhai yn gallu dechrau yn sydyn iawn, fel fideos y Glec Fawr yn orielau Esblygiad Cymru.

Mae angen pwyso botwm i ddechrau rhai fideos.

# Llefydd tywyll a golau

Mae'r golau yn newid yn oriel Esblygiad Cymru.

Mae'r Oriel Gelf Gyfoes yn olau iawn, ond weithiau bydd ardaloedd sinema sy'n dywyll iawn.





# Ardaloedd tawel

Os oes angen i chi fynd i le tawel, siaradwch ag un o Gynorthwywyr yr Amgueddfa.

Gallant eich arwain i ystafell dawel fel Man Cyfarfod Clore os yw'n wag, neu ardal dawel mewn oriel.



# Gweithdai – Oed 3-7



Synau'r Deinosoriaid



Fy Ymweliad Cyntaf ag Oriel Celf



Ditectifs Amgueddfa yng Nghanolfan Ddarganfod Clore

MWY AR EIN GWEFAN

# Gweithdai - Oed 8-11



Cynefin: Archwilio Trwy Gelf



LEGO® Build the Change: Gwarchod y Moroedd



Archwilio Hunaniaeth drwy Bortreadau

**MWY AR EIN GWEFAN**

# Gweithdai

Mae gwybodaeth am Raglen Addysg Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar y wefan.

MWY AR EIN GWEFAN



# Canolfan Ddarganfod Clore

Mae Canolfan Ddarganfod Clore ar y Llawr Gwaelod.

Oriel ddysgu yw hon. Mae ysgolion, teuluoedd a grwpiau cymunedol yn gallu archebu'r ystafell.

Oriel ryngweithiol yw hi, yn llawn pethau o gasgliad yr Amgueddfa gallwch chi eu cyffwrdd.



# Gofod Dysgu Clore

Mae Gofod Addysg Clore ar lefel 2 (y llawr gwaelod).

Mae ysgolion, teuluoedd a grwpiau cymunedol yn gallu archebu'r ystafell.



# Gofod Celf Foyle

Mae Gofod Celf Foyle ar y llawr uchaf, ar lefel 5.

Mae ysgolion, teuluoedd a grwpiau cymunedol yn gallu archebu'r ystafell.



# Orielau ar y Llawr Gwaelod.



Hanes Natur



Esblygiad Cymru

# Orielau ar y Llawr Uchaf.



Orielau Celf Gyfoes



Argraffiadaeth ac Ôl-argraffiadaeth

# Ymweliadau Rhithiol

Gallwch chi drefnu taith rithwir cyn ymweld â'r Amgueddfa.

Ymunwch ag Amgueddfa Cymru ar-lein gyda'ch dosbarth am weithdy rhyngweithiol byw am ddim.

Mae gweithdai ar bob elfen o'r cwricwlwm, gan gynnwys: Y Dyniaethau, Celfyddydau Mynegiannol, a Gwyddoniaeth a Thechnoleg



# Weithiau bydd angen gadael yr adeilad yn gyflym

Os clywch chi seiren swnllyd a boom trwm, mae angen gadael yr Amgueddfa yn gyflym ac yn drefnus.

Bydd staff yr Amgueddfa yn chwilio amdanoch chi a dangos ble i fynd. Peidiwch defnyddio'r lifft.

Peidiwch mynd nôl mewn i'r Amgueddfa nes bod y staff yn dweud ei bod hi'n ddiogel.

